Oriel Gelf **Glynn Vivian** Art Gallery

OFFSITE / ODDI AR Y SAFLE

Artist Preswyl Glynn Vivian: Joan Jones

1 Tachwedd 2014 – 28 Chwefror 2015

Mae rhaglen ‘Artist Preswyl’ Oriel Gelf Glynn Vivian yn gyfle i'r gymuned ryngweithio, cyfnewid a gweithio gydag artist, ac i’r artist fyfrio, ymchwilio a chydweithio. Ein hartist yn ystod mis Tachwedd 2014 – Chwefror 2015 yw Joan Jones.

Mae Joan wedi bod yn gweithio fel ymarferydd DIY diwylliannol annibynnol ers dros ddegawd. Gyda gwreiddiau yn sîn pync rhyfedd Llundain (gan berfformio'n unigol fel *Truly Kaput* ac mewn bandiau megis y *Battys* a'r *Gender Facist*) mae Joan bellach yn gweithio mewn amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys caneuon, perfformiadau byw a dosbarthu cylchgronau. Mae gwaith Joan yn ymwneud â throi profiadau rhyfedd corfforol – rhai poenus yn aml – yn hanesion, neu’n "straeon gwerin" fel yr hoffent eu disgrifio. Fel person ac artist genderqueer, mae Joan ar hyn o bryd yn archwilio rhagenwau niwtral o ran rhyw megis 'eu' a 'nhw' gan gyfeirio at eu hunain. Bydd Joan yn cyflwyno stiwdio agored a pherfformiad fel rhan o’r cyfnod preswyl.

Stiwdio Agored Artist Preswyl
Dydd Gwener 23 & 30 Ionawr a 20 & 27 Chwefror, 1 - 2pm
Dewch i gwrdd â'r artist yn ei stiwdio.

Sgwrs Artist Preswyl
Dydd Iau 29 Ionawr, 5.30pm
Joan Jones yn sgwrsio â Tom Goddard.

Performiad Dydd San Ffolant
Dydd Gwener 13 Chwefror, 4.30 - 6.45pm
Perfformiad byw/parti dawns dial i gariadon siomedig. Ôl-barti ym Mozarts, 7pm
Cerddoriaeth gan XX Bottom, stondinau cylchgronau a llawer, llawer mwy!